## Fframwaith Llythrennedd

| Llinyn | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|
| Trawsieithu | | | | |

© Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-395-7

## Fframwaith Llythrennedd

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwrando | **Gwrando am ystyr** | Cyfleu dewis i oedolyn sylwgar *[ADD 37]* | Rwy'n gallu deall iaith lafar pan fydd yn cael ei hategu gan gliwiau gweledol a chliwiau amgylcheddol o fewn y cyd-destun uniongyrchol. | Rwy'n gallu gwrando ac ymateb yn briodol i eiriau allweddol mewn brawddegau byr a gefnogir gydag ystumiau, *e.e. 'Dos/Cer i nôl dy gôt'*. | Rwy'n gallu dangos fy mod wedi gwrando ar eraill a'u deall, *e.e. drwy ddewis lluniau o gasgliad*. |
| | **Datblygu geirfa** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu talu sylw a dangos fy mod yn deall ychydig o eiriau/arwyddion am wrthrychau neu bobl gyfarwydd. | Rwy'n gallu dangos fy mod yn deall hyd at 50 o eiriau/arwyddion/symbolau, yn bennaf mewn cyd-destunau pendant. | Rwy'n gallu dangos fy mod yn deall hyd at 200 o eiriau/arwyddion/symbolau, yn bennaf mewn cyd-destunau pendant. |
| | **Gwrando i ddeall** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu talu sylw ac ymateb i geisiadau cyfarwydd o fewn trefn arferol. | Rwy'n gallu ymateb yn briodol i geisiadau syml, *e.e. lle mae'n rhaid newid lleoliad gwrthrychau neu eu trosglwyddo i bobl*. | Rwy'n gallu ymateb yn briodol i geisiadau syml sy'n cynnwys priodoleddau *(e.e. mawr, budr)*, rhagenwau meddiannol *(e.e. fy, dy)* ac arddodiaid *(e.e. yn, ar, o dan)*. |
| | **Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu talu sylw a gwrando ar bobl eraill mewn gweithgareddau cymryd tro syml. | Rwy'n gallu gwrando a chymryd fy nhro mewn grwpiau bach pan gaf i fy nghefnogi gan oedolyn sylwgar. | Rwy'n gallu gwrando a chymryd fy nhro mewn sgyrsiau a storïau grŵp syml. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-395-7

# Fframwaith Llythrennedd

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | **Ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemeg** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu talu sylw a dangos diddordeb mewn rhythm, patrymau a synau. | Rwy'n gallu sylwi ar rhythmau, patrymau a synau, a'u hefelychu, pan fyddan nhw wedi'u modelu gan oedolyn sylwgar. | Rwy'n gallu arbrofi gyda rhythmau, patrymau a synau wrth siarad, ac archwilio geiriau sy'n swnio'n debyg ac yn wahanol. |
| | | | | Rwy'n gallu archwilio synau yn fy amgylchedd. | |
| | **Strategaethau darllen** | Sefydlogrwydd gwrthrychau *[ADD 34]* | Rwy'n gallu dangos sylw i rai llyfrau, gan roi llyfrau eraill i'r naill ochr. | Rwy'n gallu dewis hoff lyfr i oedolyn ei ddarllen i fi. | Rwy'n dechrau dal llyfr ar ei fyny, troi'r tudalennau o'r blaen i'r cefn yn bennaf, ac edrych o'r chwith i'r dde. |
| | | | Rwy'n gallu talu sylw i weithgareddau sy'n archwilio synau llythrennau. | Rwy'n gallu talu sylw cynyddol i synau pan fydd oedolyn yn darllen i mi. | Rwy'n dechrau adnabod rhai llythrennau penodol ac arbrofi gyda'r synau cysylltiedig. |
| | | | Rwy'n gallu chwilio am eitemau 'cynrychioliadol', *e.e. gwrthrychau, ffotograffau, ac ati*. | Rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng cynrychioliadau symbolaidd. | Rwy'n gallu deall bod ystod o ystyron i brint ac rwy'n dechrau 'darllen' rhai geiriau. |
| | | | Rwy'n gallu cysylltu gwrthrychau a ffotograffau ag ystyron. | Rwy'n gallu cysylltu symbolau a thestun ag ystyron. | Rwy'n dechrau adnabod geiriau syml sydd o ddiddordeb, mewn llyfrau ac yn yr amgylchedd. |
| | | | | Rwy'n dechrau paru symbolau a thestun cyfarwydd. | |
| | **Deall, ymateb a dadansoddi** | | Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol bod gwrthrychau a ffotograffau yn dweud rhywbeth. | Rwy'n gallu defnyddio geiriau neu ddewis gwrthrych neu symbol i 'ddisgrifio' nodwedd a ddarlunnir mewn llyfr stori. | Rwy'n gallu rhannu rhywfaint o wybodaeth am stori gyfarwydd. |
| | | Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, bod yn well ganddo eitemau nad ydyn nhw'n bresennol *[ADD 41]* | Rwy'n gallu adnabod cymeriad mewn stori gyfarwydd. | Rwy'n gallu paru eitemau mewn sach stori i gymeriadau, lleoedd neu ddigwyddiadau mewn stori gyfarwydd iawn. | Rwy'n gallu dwyn i gof brif ddigwyddiadau mewn stori gyfarwydd yn eu trefn. |
| | | | Rwy'n gallu talu sylw i ystod o storïau, rhigymau, caneuon a cherddi cyfarwydd iawn. | Rwy'n gallu ymateb i ystod ehangach o storïau, rhigymau, caneuon a cherddi ac ymgysylltu â nhw. | Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa drwy bethau a ddarllenir i mi a thrwy ddefnyddio geiriau newydd. |
| | | | Rwy'n gallu dangos ymateb penodol i agweddau synhwyraidd ar stori adnabyddus. | Rwy'n gallu ymateb yn briodol i rywbeth penodol sy'n digwydd mewn stori gyfarwydd. | Rwy'n gallu mynegi mewn rhyw fodd neu'i gilydd, o gael fy ysgogi, fy agwedd bersonol tuag at stori neu ddiddordeb mewn stori sydd newydd gael ei darllen. |
| | | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu rhagweld patrwm sy'n ailadrodd mewn stori, *e.e. gwenu ar 'sblish, sblosh, sblash'*. | Rwy'n gallu dangos pleser pan fydd oedolyn yn dechrau darllen un o'm hoff storïau, yn ymateb ar adegau allweddol ac yn deall pan fo'r stori wedi gorffen. | Rwy'n gallu adalw ac ymateb i adegau allweddol storïau cyfarwydd. |
| | | | Rwy'n gallu talu sylw ar y cyd pan fydd oedolyn yn adrodd stori. | Rwyf wedi profi ystod o ddeunyddiau darllen a oedd yn cael eu darllen i mi gan oedolyn drwy ganolbwyntio ar y lluniau. | Rwyf wedi profi amrywiaeth o lenyddiaeth a deunyddiau darllen cyfarwydd, ac rwy'n gallu dilyn testun syml a ddarllenir i mi ac ymateb yn briodol. |
| | | | Rwy'n gallu dangos fy mod yn hoffi/ddim yn hoffi llyfr/stori. | Rwy'n gallu dewis rhwng dau stori/dau lyfr gwahanol. | Rwy'n gallu dewis rhwng amrywiaeth o lyfrau/storïau rwy'n eu mwynhau. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-395-7

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Siarad | **Eglurder a geirfa** | | Rwy'n dechrau cael hwyl wrth wneud synau. | Rwy'n dechrau cyfuno synau, *e.e. 'iaw' am 'law'*. | Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth ehangach o gyfuniadau o synau ac rwy'n dechrau arbrofi gyda chyfuniad eraill o synau. |
| | | | Rwy'n gallu defnyddio ychydig o synau/gwrthrychau/ffotograffau cyfarwydd iawn. | Rwy'n gallu defnyddio geiriau/arwyddion unigol a nifer cynyddol o frawddegau byrion *(e.e.'wedi gorffen', 'ga i ddiod')* er mwyn mynegi fy nymuniadau neu anghenion. | Rwy'n gallu deall a defnyddio hyd at 200 neu fwy o eiriau/arwyddion/symbolau. |
| | | Tynnu sylw person arall yn fwriadol er mwyn cyfathrebu angen *[ADD 39]* | Rwy'n gallu cyfleu fy anghenion a fy nyheadau, drwy ddefnyddio synau/ystumiau/gwrthrychau/ffotograffau. | Rwy'n gallu cyfleu fy niddordeb, gwneud sylwadau a rhoi gwybodaeth, gan ddefnyddio geiriau/arwyddion/symbolau. | Rwy'n gallu cyfleu fy niddordeb, gwneud sylwadau a rhoi gwybodaeth, gan ddefnyddio brawddegau hyd at bedwar gair a brawddegau mwy cymhleth. |
| | **Diben** | Cyfleu dewis i oedolyn sylwgar *[ADD 37]* | Rwy'n gallu defnyddio cyfuniad o synau/ystumiau/gwrthrychau/ffotograffau er mwyn cael sylw, i ddweud 'na' ac i fodloni fy anghenion. | Rwy'n gallu mynd at eraill ac ymwneud â nhw i gyfathrebu fy anghenion a'm teimladau a'm hoffterau a chas bethau. | Rwy'n gallu cymryd rhan mewn cyfathrebu ystyrlon gydag oedolyn sylwgar. |
| | | | Rwy'n gallu defnyddio synau/ystumiau/gwrthrychau/ffotograffau i amrywiaeth o ddibenion. | Rwy'n gallu defnyddio nifer cynyddol o frawddegau dau a thri gair i fynegi fy nymuniadau/anghenion fy hun. | Rwy'n gallu deall a defnyddio hyd at 200 o eiriau/arwyddion/symbolau a brawddegau hyd at bedwar gair a brawddegau mwy cymhleth. |
| | **Siarad cydweithredol** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu pwyntio at eitem a ddymunir, neu eitem o ddiddordeb, gan leisio. | Rwy'n gallu cyfathrebu'n bennaf ynghylch gwrthrychau/pobl/lluniau sy'n bresennol ar y pryd, ond hefyd yn cyfeirio at y ffaith eu bod yn absennol. | Rwy'n gallu cyfathrebu ynghylch storïau cyfarwydd a chwarae symbolaidd, yn ogystal â phobl, lleoedd a digwyddiadau o'm profiad ehangach. |
| | | | Rwy'n gallu dangos diddordeb mewn gweithgareddau grŵp. | Rwy'n gallu dangos diddordeb mewn gweithgaredd grŵp a rhagweld pryd mae fy nhro i pan na cheir trefn syml o gymryd tro mewn cylch. | Rwy'n gallu ceisio defnyddio geirfa/siarad i gynrychioli pethau/gwrthrychau/sefyllfaoedd ac ailadrodd geiriau a brawddegau os na chefais fy neall. |
| | | | | Rwy'n gallu canolbwyntio fy sylw ar y gweithgaredd grŵp a chyfrannu ar yr adeg gywir i raddau helaeth. | |
| | **Gofyn cwestiynau** | | Rwy'n gallu cael profiad o gwestiynau ac atebion fel y'u modelir gan oedolyn. | Rwy'n gallu ymateb i gwestiynau 'pwy', 'beth' a 'ble' yn fy amgylchedd fy hun. | Rwy'n gallu ymateb i gwestiynau 'pwy', 'beth', a 'ble'. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-395-7

| Llinyn | Elfen | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgrifennu | **Geirfa, sillafu, gramadeg** | Addasu gweithred pan nad yw ailgyflawni'r weithred yn gweithio *[ADD 38]* | Rwy'n gallu symud gwahanol rannau o fy nghorff, drwy ddefnyddio symudiadau echddygol fras i greu siapiau. | Rwy'n gallu cydsymud gwahanol rannau o fy nghorff er mwyn arbrofi gyda gwneud marciau, drwy ddefnyddio rhannau'r corff ar arwynebau gwahanol. | Rwy'n dechrau rheoli fy sgiliau gwneud marciau i ffurfio llythrennau a siapiau mawr. |
| | | | Rwy'n gallu gafael mewn eitemau, gan ddefnyddio symudiadau echddygol manwl, ac yn dechrau defnyddio'r bysedd i wneud marciau *(e.e. mewn tywod gwlyb, ewyn, ac ati)*, gan symud ymlaen i sgriblo ar bapur. | Rwy'n gallu defnyddio'r llaw a ffefrir gennyf i yn fwy cyson wrth wneud marciau, ac weithiau'n defnyddio offeryn wedi'i addasu. | Rwy'n gallu rhoi cynnig ar amrywiaeth o offer i wneud marciau a siapiau ar bapur neu ar ddefnydd arall priodol. |
| | | | | | Rwy'n gallu tynnu rhai lluniau cynrychioliadol. |
| | | | | | Rwy'n gallu cynnwys rhai siapiau tebyg i lythrennau, neu ffurfiau tebyg i eiriau wrth dynnu llun. |
| | | | Rwy'n gallu lleoli'r sgriblo o fewn gofod diffiniedig *(e.e. o fewn terfynau'r dudalen neu ar ran neilltuol o'r dudalen)*, gan ddangos rheolaeth weledol gynyddol. | Rwy'n gallu dewis symbol neu lun unigol, o blith dau neu fwy, i ddisgrifio rhywbeth sydd newydd ddigwydd. | Rwy'n gallu defnyddio marciau i labelu fy ngwaith fy hun. |
| | | | Rwy'n gallu cyffwrdd gwrthrych neu lun er mwyn cael gwobr weledol neu glywedol ar y cyfrifiadur neu ar gyfrifiadur llechen. | Rwy'n gallu cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau i ddatblygu fy sgiliau gwneud marciau pwrpasol ar draws ystod o gyfryngau ac offerynnau. | Rwy'n dechrau ysgrifennu rhai llythrennau yn fy enw fy hun er y gall rhai o'u ffurfiau fod yn anghonfensiynol. |
| | | | | Rwy'n gallu dewis llun neu symbol, o blith dau neu fwy, i gyfleu neges mewn meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur llechen. | Rwy'n gallu dewis lluniau neu symbolau i gyfansoddi brawddeg fer, wrth ddefnyddio meddalwedd symbolau siarad ar gyfrifiadur neu ar gyfrifiadur llechen. |
| | | | Rwy'n gallu rhoi sylw i'm sgiliau gwneud marciau gyda chymorth oedolyn sy'n priodoli ystyr i fy marciau. | Rwy'n gallu tynnu lluniau i gyfleu ystyr. | Rwy'n gallu tynnu llun gyda rheolaeth gynyddol i gynrychioli fy meddyliau a'm syniadau. |
| | | | | | Rwy'n gallu dynwared rhythm geiriau a chymalau. |
| | | | | | Rwy'n dechrau ffurfio llythrennau, rhifau a/neu symbolau ar hap. |
| | **Cysyllteiriau a chystrawen** | | | | |
| | **Atalnodi** | | | | |
| | **Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau** | Talu sylw ar y cyd *[ADD 40]* | Rwy'n gallu edrych ar/cydnabod fy 'llun' pan fydd oedolyn yn siarad am yr hyn yr wyf wedi'i wneud. | Rwy'n gallu rhannu fy 'llun' wrth ryngweithio ag oedolyn. | Rwy'n gallu dweud rhywbeth am fy 'llun' neu fy 'newyddion' y gall oedolyn ei ysgrifennu. |
| | | | Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth o offer i wneud marciau a defnyddiau. | Rwy'n gallu arbrofi gydag amrywiaeth o offer i wneud marciau a defnyddiau at amryw o ddibenion ac ar draws nifer o gyd-destunau. | Rwy'n gallu creu testun a delweddau at ddiben penodol a/neu mewn cyd-destun penodol. |
| | | Cyflawni dwy weithred wahanol yn eu trefn er mwyn cael gwobr *[ADD 35]* | Rwy'n gallu cymryd rhan mewn profiad ysgrifennu ar y cyd. | Rwy'n gallu cyfrannu syniad at sesiynau ysgrifennu ar y cyd drwy ddefnyddio symbolau. | Rwy'n gallu cyfrannu syniadau at sesiynau ysgrifennu ar y cyd drwy ddefnyddio fy lluniau fy hun ac arbrofi gydag ysgrifennu. |
| | **Prawfddarllen, golygu a gwella** | | | | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG43792 ISBN digidol 978-1-80391-395-7